

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth bwysig hon. Mae eich cyfranogiad yn bwysig iawn ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Beth yw Arolwg Cyflwr Tai Cymru?

Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn arolygu cyflwr pob math o dai – tai a fflatiau; a berchenogir ac a rentir – ledled Cymru. Yn ystod eich cyfweiliad Arolwg Cenedlaethol Cymru, fe roddoch wybodaeth hollbwysig am nifer o bynciau – incwm yr aelwyd, costau tai, sut rydych chi'n talu am eich ynni – bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfuno â gwybodaeth a gafwyd o archwiliad ffisegol o'ch eiddo er mwyn rhoi darlun eglur i Lywodraeth Cymru o gyflwr cartrefi a thai yng Nghymru.

Pam mae'n bwysig?

Bydd y wybodaeth a gesglir yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau gwybodus – fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n well i helpu perchenogion a thenantiaid. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â sut i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, adeiladu tai gwell ar gyfer y dyfodol a lleihau effaith tai o ansawdd gwael ar iechyd y preswylwyr. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2008 ac mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei defnyddio'n gyson ers hynny i lywio polisiau'r Llywodraeth.

Beth fydd yn cael ei wneud yn ystod yr archwiliad?

Bydd syrfêwr a gyflogir gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) yn cynnal archwiliad o'ch cartref. Bydd y syrfêwr yn edrych ar y tu mewn a'r tu allan i'ch cartref. **Archwiliad gweledol ydyw yn unig;** ni fydd angen iddo symud unrhyw ddodrefn na charpedi, na chynnal unrhyw broffion. Ni fydd y syrfêwr yn tarfu ar eich cartref mewn unrhyw ffordd nac yn cymryd gormod o'ch amser.

Pa mor hir y bydd ymweliad y syrfêwr yn ei gymryd

Tua 40-50 munud; bydd y rhan fwyaf o'r amser hwn yn cael ei dreulio y tu allan, a thua 20 munud yn unig y tu mewn.

Pryd bydd y syrfêwr yn galw?

Bydd syrfêwr yn eich ffonio o fewn yr ychydig wythnosau nesaf i drefnu adeg gyfleus i gynnal yr archwiliad. Os na fyddwch chi gartref pan fydd y syrfêwr yn cyrraedd, bydd yn gadael cerdyn galw sy'n cynnwys ei fanylion cyswllt. Os bydd angen i chi aildrefnu apwyntiad, gallwch gysylltu â'r syrfêwr yn uniongyrchol.

Sut gallaf gadarnhau pwy yw'r syrfêwr?

Bydd gan bob syrfêwr gerdyn adnabod â llun, sy'n cynnwys rhif rhadffôn y gallwch ei ffonio i gadarnhau pwy ydyw.

A oes angen i mi gael caniatâd gan fy landlord?

Nid oes angen ceisio caniatâd gan eich landlord neu rydd-ddeiliad i gymryd rhan yn yr arolwg. Nid oes angen i chi roi gwybod iddynt eich bod yn cymryd rhan oni bai eich bod chi eisiau. Fel yr esboniodd y cyfwelydd, bydd eich holl ymatebion i Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r wybodaeth a gesglir yn rhan o'r archwiliad o'ch cartref yn aros yn gyfrinachol.

A yw cyfrinachedd yn cael ei warantu?

YDY. Bydd y wybodaeth a gesglir yn rhan o'r archwiliad yn cael ei thrin yn gyfrinachol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Bydd yn cael ei defnyddio i gynhyrchu ystadegau na fyddant yn eich enwi chi nac unrhyw un yn eich cartref. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i sefydliadau cymeradwy eraill hefyd at ddibenion ystadegol yn unig, a bydd yr un safonau diogelwch yn berthnasol i'ch gwybodaeth bob amser.

A oes cael syrfêwr sy'n siarad Cymraeg?

OES. Byddwch eisoes wedi dweud wrth y cyfwelydd a ydych eisiau i syrfêwr sy'n siarad Cymraeg alw. Os hoffech newid eich meddwl, cysylltwch â BRE ar y rhif isod.

Gwybodaeth ychwanegol

Os hoffech gael gwybodaeth ychwanegol am Arolwg Cyflwr Tai Cymru neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â BRE ar **0808 164 2982** neu anfonwch neges e-bost at **actcgwyb@bre.co.uk**. Mae galwadau am ddim o ffônau symudol yn ogystal â thirlinellau.

Os hoffech gysylltu â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, anfonwch neges e-bost at **ystadegau.cyflwr tai@cymru.gsi.gov.uk** neu ffoniwch **0300 060 3300**. Nid ydy galwadau i'r rhif hwn am ddim, ac fe godir tâl ar y gyfradd arferol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
www.llyw.cymru/actcgwyb neu
www.bre.co.uk/whcs2017-18